# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| |
|---|
| **Pwyllgor: Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad y cyfarfod: 29 Mawrth 2012** |
| **Pennaeth Gwasanaeth Perthnasol: Huw Jones** |
| **Comisiynwyr Perthnasol: Mick Gianassi** |

## Teitl yr Adroddiad: Adroddiad Terfynol Gweithgor Trefniadau Craffu Gwaith Partneriaethol

**1. CEFNDIR**

1.1 Enwebwyd 2 aelod o Brif Bwyllgor Craffu Cyngor Gwynedd a 2 aelod o Bwyllgor Sgriwtini Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn i fod yn aelodau o'r Gweithgor Trefniadau Craffu ar y Cyd.

1.2 Yr aelodau oedd Cynghorwyr Eric Roberts a Selwyn Williams (Ynys Môn) a'r Cynghorwyr Dewi Llewelyn a Gareth Thomas (Gwynedd)

1.3 Pwrpas y gweithgor oedd paratoi model manwl ar gyfer craffu gwaith partneriaethol Gwynedd a Môn i'w gyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd.

**2. PRIF FATERION**

2.1 Cyfarfu'r Gweithgor ar 9 Mawrth 2012 i ystyried papurau a gyflwynwyd gan swyddogion y ddau Gyngor:

2.1.1. Canllawiau ar gyfer Craffu Sefydliadau sy'n gweithredu ar draws, Partneriaethau a Chydweithio (Cyngor Sir Ddinbych)

2.1.2. Adroddiad Frank Cuthbert a Rebecca David-Knight (Llywodraeth Cymru) i Fwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd Conwy a Dinbych

2.1.3. Adroddiad Geraint George (Gwynedd) a Huw Jones (Ynys Môn) – Adolygiad Rhesymoli Partneriaethau.

<u>Cyd-destun</u>

2.2 Mae Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol y Gogledd yn gyfrifol am arwain ar osod trefniadau yn eu lle ar gyfer rhesymoli partneriaethau. Penderfynwyd ymgynghori ar y dulliau gorau i wneud hyn yn isranbarthol (mae isranbarthol yn y cyd-destun yma'n golygu Gwynedd a Môn).

2.3 Y nod yw sefydlu patrwm a fyddai'n hybu cyd-gomisiynu a chyd-lywodraethu o ansawdd uchel yn y meysydd canlynol:

2.3.1. Strategaeth Gymunedol
2.3.2. Bwrdd Gwasanaethau Lleol
2.3.3. Iechyd Gofal a Lles
2.3.4. Plant a Phobl Ifanc
2.3.5. Diogelwch Cymunedol

2.4 Yn Ynys Môn a Gwynedd, fe sefydlwyd Bwrdd Prosiect ar y cyd i yrru'r gwaith ymlaen. Yn dilyn gwaith ymchwil ac ystyriaeth gan y Bwrdd Prosiect fe argymhellwyd y Model canlynol:

2.4.1. Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd yn cynnwys Arweinyddion a Phrif Weithredwyr y prif asiantaethau cyhoeddus yn y ddwy sir
2.4.2. Bwrdd Gwireddu – sef corff o swyddogion ar lefel uchel o fewn yr asiantaethau i sicrhau rhediad effeithiol y Grwpiau Tasg/Prosiect gan gynnwys rheoli perfformiad
2.4.3. Grwpiau Tasg/Prosiect yn gweithredu ar flaenoriaethau penodol

2.5 Nodwyd mai'r amserlen ar gyfer y drefn newydd yw ei fod yn weithredol o 1 Hydref gyda gwaith penodol o sefydlu a chytuno blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd newydd yn digwydd yn 6 mis olaf 2012/13.

<u>Craffu'n Ychwanegu Gwerth</u>

2.6 Gall craffu effeithiol ychwanegu gwerth at y datblygiadau yma drwy herio a chael eglurder ar y pwyntiau canlynol:

2.6.1. Beth yw pwrpas y cydweithio a pha fuddion sydd wedi'u nodi ar gyfer y rhesymoli?
2.6.2. Pa bartneriaethau sydd wedi'u cynnwys a pha rai sydd ddim?
2.6.3. A oes tystiolaeth bod amrediad o opsiynau wedi'u hystyried?
2.6.4. Beth yw goblygiadau cost ac ariannu'r model arfaethedig o gymharu â'r trefniadau presennol?
2.6.5. Ydi'r mesurau perfformiad yn glir a sut bydd perfformiad yn cael ei fonitro?
2.6.6. A oes sicrwydd y bydd y fenter a'r ddarpariaeth yn cyflawni gwasanaeth dwyieithog yn unol â gofynion trigolion/defnyddwyr gwasanaeth?
2.6.7. Beth yw'r dystiolaeth bod statws yr iaith Gymraeg yn cael ei diogelu mewn unrhyw drafodion partneriaeth?
2.6.8. Beth yw'r anfanteision i Wynedd neu Fôn yn unigol?
2.6.9. A oes eglurder ynglŷn â sut bydd y drefn llywodraethu'n gweithio?

<u>Ffactorau Llwyddiant</u>

2.7 Fe ystyriodd aelodau'r gweithgor bod y 7 ffactor canlynol yn bwysig er mwyn dangos pa mor llwyddiannus yw gwaith partneriaethol:

2.7.1. Ymrwymiad a rhan wirioneddol gan bartneriaid
2.7.2. Ffocws ar y pethau iawn
2.7.3. Trefnu'r gwaith yn effeithiol
2.7.4. Trefnu'r lefel iawn o gefnogaeth
2.7.5. Sicrhau persbectif annibynnol a gwrthrychol
2.7.6. Parhau i ddysgu a gwella
2.7.7. Sicrhau'r canlyniadau cywir

2.8 Dyma enghreifftiau gwahanol o trefniadau sgriwtini yn ardaloedd eraill:

2.8.1. Pwyllgor Craffu penodol yn craffu gwaith partneriaethau
2.8.2. Craffwyr yn dewis materion craffu yn seiliedig ar berfformiad
2.8.3. Grŵp amlasiantaethol sy'n rhan o drefn craffu ffurfiol cynghorau
2.8.4. Grŵp amlasiantaethol sy'n annibynnol o drefn craffu cynghorau

2.9 Prif Faterion ychwanegol fydd angen eu cyfarch

2.9.1. Atebolrwydd yr asiantaethau i'r craffu a sut fydd y negeseuon yn cael eu cyfleu yn ôl i gyrff unigol
2.9.2. Bydd y model craffu'n debygol o gael ei ddylanwadu'n rhannol gan y math o brosiectau a fydd yn cael eu blaenoriaethu gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd – bydd rhai'n berthnasol i Fôn neu Wynedd yn unig
2.9.3. Bydd rhai o'r prosiectau'n fyrhoedlog ac eraill yn fwy hir dymor neu sefydlog
2.9.4. Bydd angen sicrhau eglurder ynglŷn â beth i'w fesur cyn cychwyn prosiectau er mwyn medru asesu cynnydd a chyflawniad.
2.9.5. Bydd angen sicrhau ymrwymiad partneriaid gan gynnwys 'sign up' i'r costau

## 3. ARGYMHELLION

3.1 Mae sicrhau atebolrwydd y gwasanaethau i aelodau a dinasyddion y ddwy Sir ar wahân yn egwyddor sylfaenol, ac felly, yn gyffredinol, y dylid cadw at y drefn o graffu materion fesul Sir and gyda phwyslais pendant ar graffu'r hyn sydd wedi'i adnabod fel blaenoriaethau a'u gwireddu yn hytrach na'r drefn.

3.2 Bod lle i arbrofi ar graffu ar y cyd lle mae yna flaenoriaethau'n amlwg yn gyson ar draws y ddwy sir.

3.3 Y dylai'r gwaith craffu felly ddilyn y patrwm a ganlyn i ddechrau:

3.3.1. Y ddwy drefn craffu sirol i graffu a herio pa flaenoriaethau y mae'r Bwrdd newydd yn ei ddewis yn ystod hanner olaf 2012/13.
3.3.2. Ar gyfer 2013/14 y dylai'r trefniadau craffu sirol ystyried ac adnabod blaenoriaethau penodol i'w craffu'n sirol yn unol â threfniadau craffu'r ddau gyngor.
3.3.3. Bod y ddwy gyfundrefn craffu sirol yn cytuno ar o leiaf un mater, sydd yn amlwg yn flaenoriaeth ar draws y ddwy sir, er mwyn treialu trefn craffu ar y cyd i asesu ei effeithiolrwydd

**Bev Symonds,**
**Rheolwraig Sgriwtini,**
**Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau**

*22 Mawrth 2012*

---

**Atodiadau**

**Penderfyniadau perthnasol a wnaed yn flaenorol gan y Cyngor, y Pwyllgor Gwaith neu'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol**
"Dim penderfyniadau perthnasol blaenorol".

**Papurau Cefndir**

**Swyddog Cyswllt:**
Carl Thomas
Swyddog Cyswllt a Chefnogi Sgriwtini
Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau